Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Practis Deintyddol Cwmtawe
# Dyddiad y gweithgarwch: 5 Ebrill 2022

Dyddiad cyhoeddi: 10 Mai 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol.  Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN digidol 978-1-80364-146-1



© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Bractis Deintyddol Cwmtawe ar 5 Ebrill 2022 fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnig triniaeth i gleifion y GIG a chleifion preifat. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a gynigir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ac mae'n un practis mewn grŵp sy'n eiddo i Roderick's Dental Limited.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn ffurfio rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Mae rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu ar gyfer sicrwydd ac arolygiadau ar gael yma.

Gwnaethom siarad â Rheolwr y Practis a Rheolwr Cydymffurfedd ar gyfer Roderick's Dental Limited ar 5 Ebrill 2022 a chawsom wybodaeth a thystiolaeth ganddynt am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Yr asesiadau risg / archwiliadau amgylcheddol mwyaf diweddar

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwnaethom ganfod bod y gwasanaeth wedi cynnal asesiadau risg perthnasol ac wedi diweddaru polisïau a gweithdrefnau perthnasol i fodloni'r gofynion ychwanegol o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Mae'r drws ffrynt ar agor ond yn cael ei reoli a'i asesu yn seiliedig ar gapasiti cleifion sydd yn yr ystafell aros ar unrhyw adeg (dim ond dau glaf). Os yw pellter cymdeithasol yn cael ei beryglu, bydd y drws yn cael ei gloi a gofynnir i gleifion aros y tu allan cyn cael eu cludo'n syth i'r feddygfa ar amser eu hapwyntiad. Mae'r drws yn cael ei ailagor pan fydd capasiti yn caniatáu.

Roedd cleifion yr oedd angen iddynt weld y deintydd yn cael gwahoddiad i ddod i'r practis drwy apwyntiad a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Cawsom wybod bod staff sy'n gadael cleifion i mewn i'r adeilad yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol, a bod yr holl gleifion sy'n gorfod derbyn triniaeth yn cael eu sgrinio am symptomau COVID-19. Hefyd, wrth i gleifion gyrraedd y practis, mae'r staff yn gofyn y cwestiynau sgrinio am COVID-19 iddynt, a hynny cyn eu derbyn i mewn i'r ddeintyddfa.

Mae'r practis wedi rhoi system un ffordd ar waith sy'n galluogi cleifion i gael mynediad i'r practis drwy'r brif fynedfa ac i fynd allan drwy ddrws ar wahân. Mae gan y practis ardal aros ac mae arwyddion yn cael eu harddangos er mwyn cynnal pellter cymdeithasol, er y dywedwyd wrthym fod y practis yn ymdrechu i beidio â gadael i gleifion aros yn yr ardal aros ond i fynd â nhw i mewn i ystafelloedd y feddygfa yn brydlon. Roedd y practis wedi cael gwared ar deganau a chylchgronau o'r ardal aros.

Dywedodd Rheolwr y Practis wrthym fod gwybodaeth COVID-19 yn cael ei darparu i gleifion cyn eu hapwyntiad; mae neges destun neu e-bost sy’n cynnwys dolen yn arwain y cleifion i dudalen we sy’n darparu gwybodaeth am COVID-19 a gwybodaeth am daith y claf. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael fel copi caled i'r rhai sydd heb fynediad at y rhyngrwyd. Mae gwybodaeth y practis ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae gan y practis arwyddion i

hysbysu'r cleifion os ydynt yn dymuno gweld deintydd sy'n siarad Cymraeg yna gellir trefnu hyn yn un o'r chwaer bractisau. Mae gan staff y dderbynfa restr o'n practisau eraill sydd â staff sy'n siarad Cymraeg.

Roedd Rheolwr y Practis yn canmol staff y practis yn fawr, gan dynnu sylw at y ffordd y maent wedi ymateb i ofynion y practis a'r cleifion, ac o ran cefnogi ei gilydd yn ystod pandemig COVID-19.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Copi o'r archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 mwyaf diweddar a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.
- Polisïau rheoli heintiau cyffredinol a pholisïau penodol ynghylch COVID-19
- Amserlenni glanhau
- Polisi glanhau
- Copïau o wiriadau dyddiol sydd yn cael eu gwneud ar gyfarpar awtoclaf.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Cadarnhaodd Rheolwr y Practis fod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth glir o'r canllawiau diweddaraf ar gyfer rheoli cleifion deintyddol yng Nghymru yn ystod y broses adfer ar ôl pandemig COVID-19.[1] Bwriedir i'r canllawiau gael eu defnyddio gan yr holl leoliadau gofal deintyddol cyffredinol yng Nghymru.

Cadarnhaodd Rheolwr y Practis fod staff wedi derbyn diweddariadau rheolaidd ynghylch COVID-19 trwy gyfarfodydd practis a grŵp WhatsApp pwrpasol[2] a sefydlwyd i alluogi'r staff i gyfleu unrhyw bryderon neu ymholiadau. Trafodir unrhyw ganllawiau a gweithdrefnau newydd yn ystod cyfarfodydd ffurfiol y tîm. Mae cyfarfodydd boreol yn cael eu cynnal yn ddyddiol hefyd er mwyn sicrhau bod staff yn deall cynnwys unrhyw ddiweddariadau a ddarperir mewn cyfarfodydd practis neu e-byst yn llawn. Dywedwyd wrthym fod cyfathrebu rheolaidd wedi sicrhau bod gan bawb gyngor ac arweiniad cyfredol ar COVID-19.

Cadarnhaodd Rheolwr y Practis fod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant neu arweiniad

[1] 2021-09-28 Guidance for the Dental Management of Patients in Wales during the C-19 Pandemic Recovery.pdf
[2] Mae WhatsApp Messenger, neu'n syml WhatsApp, yn wasanaeth negeseuon gwib canoledig traws-lwyfan a phrotocol llais dros y rhyngrwyd ac yn rhadwedd Americanaidd sydd ar gael yn rhyngwladol ac sy'n eiddo i Meta Platforms

mewnol ar bynciau amrywiol megis adnabod symptomau COVID-19, rheoli cleifion â symptomau COVID-19, a'r defnydd cywir o gyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwisgo a diosg[3] cyfarpar a chael gwared arno'n ddiogel ar ôl ei ddefnyddio, yn ogystal â phrawf ffitio mygydau ar gyfer anadlyddion FFP3 .

Nododd y practis fod ganddo stoc ddigonol o gyfarpar diogelu personol a bod gwiriadau stoc reolaidd yn cael eu gwneud. Dywedwyd wrthym fod aelod o staff yn goruchwylio'r stoc ganolog a bod archebion yn cael eu gwneud bob wythnos er mwyn cynnal cyflenwad.

Cadarnhaodd Rheolwr y Practis fod prosesau ar waith i ddiogelu cleifion a staff yn ystod gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau[4]. Dywedwyd wrthym fod y broses hon yn dilyn y canllawiau mwyaf diweddar a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru. Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i bob staff ynghylch y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Prif Swyddog Deintyddol. Dywedodd Rheolwr y Practis wrthym hefyd fod systemau newid aer wedi cael eu gosod ym mhum ystafell driniaeth y practis.

Gwnaethom gadarnhau'r broses o wirio nad oedd cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn dangos symptomau COVID-19 gyda Rheolwr y Practis. Yn ogystal â ffonio cleifion cyn eu hapwyntiad a gofyn cyfres o gwestiynau sgrinio iddynt, byddai'r cleifion wedyn yn cael eu hail sgrinio wrth gyrraedd y practis. Pe bai claf yn cyrraedd y practis a chanddo symptomau COVID-19, cadarnhaodd Rheolwr y Practis y byddai'r staff yn gofyn i'r claf aildrefnu ei apwyntiad ac y byddent yn darparu cyngor os oedd y claf mewn poen. Os bernir bod y claf yn achos brys, yna byddai apwyntiad yn cael ei ddarparu ar ddiwedd y dydd.

Darparwyd amrywiaeth o ddogfennau inni ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys protocolau ac asesiadau risg ar gyfer gweithio yn ystod Pandemig y Coronafeirws. Gwelsom dystiolaeth o amserlenni a chofnodion glanhau'r practis ar gyfer dihalogi offer a chyfarpar deintyddol.

Dywedwyd wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau dros atal a rheoli heintiau, a'u bod yn eu cyflawni. Cafwyd tystiolaeth o hyn yn nogfen Y Weithdrefn Weithredu Safonol y practis sy'n amlinellu camau a chyfrifoldebau'r tîm rheoli a'r staff er mwyn atal lledaeniad y feirws.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

---

[3] Mae'r term "gwisgo a diosg" yn cael ei ddefnyddio i gyfeirio at yr arfer o wisgo a diosg offer diogelwch, dillad, a gwisg gwaith.
[4] Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy ddefnynnau.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, fe holodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. (?) Rydym yn ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Copi o'r Datganiad o Ddiben diweddaraf
- Copi o'r Daflen Wybodaeth ddiweddaraf i Gleifion.
- Copi o'r adroddiad Rheoliad 23 (Ymweliad yr Unigolyn Cyfrifol) diweddaraf, neu lle mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn Rheolwr Cofrestredig, copi o'r adroddiad blynyddol diweddaraf wedi ei baratoi o dan Reoliad 16(3)
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Archwiliad cardiau cofnod
- Polisi / gweithdrefn cydsyniad gwybodus
- Copi o bolisi diweddaraf COVID-19
- Cynllun parhad busnes ar gyfer y practis
- Cofnod o'r hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion hyfforddiant, a oedd yn dangos cydymffurfedd â hyfforddiant gorfodol. Esboniodd y staff y broses ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant yn gyfredol hefyd. Roedd y staff yn parhau i ddefnyddio pecynnau e-ddysgu[5] dros blatfform Wisdom ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP). Mae'r staff hefyd yn cael eu hatgoffa i ddefnyddio platfform Wisdom yn rheolaidd, gan y gallant gael yr hyfforddiant mwyaf diweddar. Dywedodd Rheolwr y Practis wrthym fod y staff wedi ymgysylltu â hyfforddiant ychwanegol fel cymryd gwasgiadau, defnyddio fflworid a hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IRMER).[6]

Cawsom wybod na wnaeth y practis gau yn ystod y pandemig. Drwy gydol y pandemig, mae'r practis wedi cynnal gwasanaeth er mwyn iddo allu parhau i weld cleifion brys, ar ôl eu sgrinio ar gyfer COVID-19.

Cawsom wybod am drefniadau a wnaed a chamau gweithredu a gymerwyd hyd ddyddiad y gwiriad pan oedd angen i aelodau staff hunanynysu neu eu bod wedi cael canlyniad positif am COVID-19. Darparwyd adroddiad manwl inni o'r weithdrefn a chawsom enghreifftiau o sut roedd hyn wedi gweithio hyd ddyddiad y gwiriad. Roeddem wedi ein bodloni bod y gweithdrefnau

[5] Dysgu a gynhelir trwy gyfryngau electronig, yn nodweddiadol ar y rhyngrwyd.
[6] Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2017 (IRMER 2017) yw'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r defnydd diogel o ymbelydredd ïoneiddio at ddibenion meddygol.

yma yn lleihau'r risg o ledaenu COVID-19 i staff a chleifion.

Mae'r practis wedi cynnal ei brosesau ar gyfer adrodd am unrhyw ddigwyddiadau. Cawsom wybod bod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran adrodd am ddigwyddiadau i asiantaethau rheoleiddiol, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) a chafwyd esboniad manwl o'r broses hon. Roedd unrhyw ganllawiau diweddaredig ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu rhannu yn ystod cyfarfodydd staff rheolaidd ac mewn negeseuon e-bost. Dywedwyd wrthym fod yna system fewnol sy'n caniatáu i staff adrodd am unrhyw ddigwyddiadau, ymchwilir i'r rhain a rhennir unrhyw wersi neu themâu ar draws safleoedd Roderick's Dental Limitied, ynghyd â nodi unrhyw hyfforddiant ychwanegol sydd ei angen.

Eglurwyd y broses o wirio offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys. Mae'r staff yn gyfrifol am gynnal y gwiriadau bob dydd. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau dyddiol o restr cyffuriau brys, silindrau ocsigen a gwiriadau offer diffibriliwr.

Gwnaethom adolygu'r daflen wybodaeth i gleifion[7] a'r datganiad o ddiben[8] a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, ac sydd ar gael gan y practis ar gais. Mae'r practis yn y broses o sicrhau bod y dogfennau hyn yn cael eu cyfieithu.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella**

Fel rhan o'r dystiolaeth a ddarparwyd, gwnaethom adolygu'r adroddiad Rheoliad 23 (Ymweliad yr Unigolyn Cyfrifol) diweddaraf, a chanfod ei fod yn sylfaenol iawn ac nad oedd yn cynnwys popeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau yn bennaf. Yn benodol, nid oedd yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at gyfweliadau â chyflogeion a ddefnyddiwyd i lunio barn ar safon y gofal, y driniaeth a'r gwasanaethau eraill a ddarperir yn y practis deintyddol preifat neu at ddibenion y practis hwnnw. Mae AGIC yn argymell bod yr Unigolyn Cyfrifol yn adolygu Rheoliad 23 cyn eu hymweliad nesaf ac yn sicrhau bod holl ofynion y rheoliad yn cael eu bodloni ar gyfer ymweliadau yn y dyfodol.

[7]Gwybodaeth yn unol â gofynion Atodlen 2 i Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) ac Atodlen 1.
[8] Ystyr "datganiad o ddiben" yw'r datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â rheoliad 5(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) ac Atodlen 1.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i’w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw’r meysydd i’w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Practis Deintyddol Cwmtawe

Dyddiad y gweithgarwch: 5 Ebrill 2022.

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae’n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i’r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Cyfeirnod | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mae AGIC yn argymell bod yr Unigolyn Cyfrifol yn adolygu Rheoliad 23 cyn ei ymweliad nesaf ac yn sicrhau bod holl ofynion y rheoliad yn cael eu bodloni ar gyfer ymweliadau yn y dyfodol. | 23 (4) (a,b,c) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 | Bydd rheoliad 23 yn cael ei adolygu a thempled newydd yn cael ei greu ar gyfer yr ymweliad i gynnwys pob agwedd | Rachel Thomas | 23/05/2022 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw: Rachel Thomas

Dyddiad:11/04/2022